Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru
Datganiad Technegol Rhanbarthol yr Is-grŵp Gwleidyddol [gweler * 3. isod].
Cyfarfod Sefydlu; Tachwedd 9fed, 2005. 10.30.
Ystafell Gynhadledd 3, Swyddfeydd Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug.

Cyfieithiad Translation

COFNODION

1. Cyflwyniadau a Chroeso.
Eglurodd Gareth Jones, Prif Swyddog Mwynau, Gwastraff a Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd ei fod yn dirprwyo ar ran Iwan Evans, Cadeirydd Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, sydd ar absenoldeb gwaeledd tymor hir. Dymunodd y Grŵp adferiad buan a llwyddiannus i Iwan.

Cyflwynwyd y rhai oedd yn bresennol.

Presennol;
Gareth Jones – Cadeirydd Dechreuol
Jeremy Gibbins – Ysgrifennydd Gweithgor Agregau Rhanbarthol (GARh).
Cynghorwyr;
Goronwy Edwards - Conwy
Gwilym Williams - Gwynedd
Dyfed Edwards - Gwynedd
Jim Jones – Sir y Fflint
John Williams – Ynys Môn
a Mr. Peter Weston - [cynrychiolydd heb ei ethol] SNP.

2. Ethol Cadeirydd / Is –Gadeirydd.
Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer y Gadeiryddiaeth gan GJ
Cynigwyd ac eiliwyd y Cyng. Dyfed Edwards, Gwynedd.
Cymerwyd y Gadair gan y Cyng. Edwards a gwahoddodd enwebiadau ar gyfer yr Is-gadeirydd.
Enwebwyd ac eiliwyd y Cyng. Williams.

3. Ymddiheuriadau.
Chris Morgan, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cyng. Aaron Shotton, Sir y Fflint
Cyng. Eryl Wyn Williams – Sir Dinbich [erbyn gan e-bost 16/11]

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd mwy o gynrychiolwyr wedi medru mynychu ac yn benodol nad oedd cynrychiolydd yno o Sir Ddinbych na Wrecsam.

Pwysleisiodd fod swyddogion ac aelodau o awdurdodau cynllunio mwynau Gogledd Cymru â'r cyfrifoldeb ar y cyd am arolygu paratoi rhan o waith cynllunio rhanbarthol pwysig.

Roedd Peter Weston yn cwestiynu'r defnydd o'r teitl 'Is -Grŵp Gwleidyddol'. Ei bryder oedd yn gyntaf, bod y term 'is-grŵp' yn ymddangos fel rhyw gyfrifoldeb ar lefel israddol ac yn ail, nad oedd ef na'i gydweithiwr enwebedig Martin Warren yn gynrychiolwyr etholedig ond yn hytrach yn aelodau enwebedig heb eu hethol o'r SNP.

Eglurodd yr Ysgrifennydd fod yr enw Is-Grŵp Gwleidyddol yn un oedd wedi cael ei ddefnyddio ganddo ef er mwyn hwylustod gweinyddol ac nid oedd problem ei newid. Roedd Grŵp De Cymru yn defnyddio'r term 'Fforwm'.

Ar ôl trafodaeth fer cytunwyd y byddai'r term *Fforwm Aelodau DTRh' yn cael ei fabwysiadu.

4. Rhoddodd yr Ysgrifennydd cyflwyniad byr i gefndir a gwaith 10 GARh yn Lloegr a Chymru. Roedd nodyn ysgrifenedig ar gael i aelodau.

Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau'r Cynulliad *MTAN* (Cymru) 1, Chwefror 2004 yn gosod allan agwedd y Cynulliad ar ddyfodol cynllunio mwynau yng Nghymru. Mae'r TAN yn rhagweld mabwysiadu Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer gogledd a de Cymru erbyn mis Medi 2006. Roedd y dyddiad cwblhau hwn ar hyn o bryd yn edrych yn anodd ei gyflawni.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at y Memorandwm Cyd -Ddealltwriaeth oedd wedi ei dderbyn gan aelodau gyda'u rhaglenni. Mae yn gosod y termau y bydd y Fforwm Aelodau yn eu gweithredu. Cafodd ei ddrafftio gyda'r bwriad o ddarparu fframwaith eang ar gyfer gweinyddu a chyn belled â'i fod ef yn ymwybodol, nid oedd yn cynnwys unrhyw beth allai fod yn ddadleuol i aelodau.

Roedd un mater angen penderfyniad yr aelodau mewn perthynas â'u dymuniad i fynd â swyddog cynllunio o'u hawdurdod â hwy i'r Fforwm Aelodau neu beidio.

Wedyn bu trafodaeth o amgylch y bwrdd.

Cyngor yr Ysgrifennydd oedd mai fel arfer y swyddog perthnasol fyddai'r swyddog mwynau neu'r swyddog a fynychodd y GARh.

Penderfynwyd yn unfrydol y byddai aelodau yn medru mynd â swyddog perthnasol i'r Fforwm Aelodau pe dymunent. Byddai hyn yn eithriadol o bwysig pan fyddai penderfyniadau technegol am gael eu gwneud.

Addawodd yr Ysgrifennydd i hysbysu aelod technegol pob GARh o benderfyniad y fforwm Aelodau a byddai yn cynghori y dylai swyddogion gadw cysylltiad â'u haelodau.

5. Cyflwynwyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol gan yr Ysgrifennydd yn egluro oherwydd amgylchiadau anodd, roedd De Cymru gymaint ar y blaen i'r Gogledd gyda'u paratoadau ar eu Datganiad Technegol Rhanbarthol.

Roedd yn ddyledus i Ysgrifennydd GARh De Cymru am gopïau o Bapur Materion Draft De Cymru ac roedd papur G. Cymru yn seiliedig ar hwn.

Cafodd y papur ei gyhoeddi ym mis Awst 2005 a chafwyd chwech ymateb. Roeddynt yn cael eu hystyried a'u diwygio lle'r oedd yn briodol.

Eglurwyd beth oedd swyddogaeth yr Is- Grŵp Technegol [IGT]. Roedd eu cyfarfod diwethaf ar y 7fed o fis Tachwedd.

Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y diwydiant wedi mynegi pryder fod GARh De Cymru wedi mynd yn syth o Bapur Materion i Bapur Opsiynau.

Roedd y diwydiant yn ystyried bod hyn yn gam rhy fawr i'w gymryd a'u bwriad oedd caniatáu mwy o amser i baratoi Datganiad Sefyllfa gan roi ei safbwynt mewn perthynas â chyflenwad, y galw a'r fframwaith economaidd ar gyfer cynhyrchu yng Nghymru fel cyfraniad gwaelodlin i'r DTRh.

Roedd aelodau'r IGT yn bryderus o'r oedi dichonol fyddai hyn yn ei greu i'r DTRh. Serch hynny, ystyriwyd y byddai i bennaf les y DTRh pe byddai'r diwydiant yn cael amser hanfodol i baratoi datganiad o'r sefyllfa. Byddai hwn wedi ei selio ar:

- Adroddiad Cwmpasu erbyn diwedd mis Tachwedd 05
- Adroddiad Interim erbyn diwedd mis Ionawr 06
- Adroddiad Terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 06.

6. Adroddodd yr Ysgrifennydd y byddai rhan sylweddol o'r DTRh yn asesiad o 'r 'capasiti amgylcheddol', hynny yw capasiti unrhyw ardal i ddygymod â gweithfeydd mwynau ychwanegol heb niwed gormodol.

I'r perwyl hwn, roedd y Cynulliad wedi penodi ymgynghorwyr i ddatblygu methodoleg i asesu 'r capasiti amgylcheddol a'i ddangos mewn ffurf ddaearyddol ar fas-data GIS [*Geographic Information System]*.
Mae'r Astudiaeth 'IMAECA' *['Implementing the Methodology for Assessing the Environmental Capacity for Primary Aggregates'*] wedi cael ei chwblhau gan Ymgynghoriaeth ENVIROS.

Rhoddwyd cyflwyniad gan Paul Hatherley a Matt Faulkener o ENVIROS ar y system IMAECA, yn dilyn hyn bu sesiwn cwestiynau ac atebion. Y prif bwyntiau a godwyd oedd:
Swyddogaeth llechi fel un o'r agregau primaidd. [GJ]
Diffyg argaeledd data IMAECA yn uniongyrchol i awdurdodau cynllunio mwynau. [JW Môn]
Y llinell gyswllt oedd - IMAECA fel teclyn ar gyfer y DTRh; roedd y DTRh yn gynllun gan GARh; roedd pob awdurdod cynllunio mwynau â chynrychiolaeth ar y GARh; byddai'r DTRh yn dosrannu cyflenwad i awdurdodau unigol; byddai'r awdurdodau yn drafftio polisïau cynllunio CDU/ CDL ar sail y DTRh.

Byddai'r Ysgrifennydd yn dosbarthu taflen wybodaeth gan ENVIROS gyda'r cofnodion.

7. Datganiad Technegol Rhanbarthol – y camau nesaf.
Adroddodd GJ ar y camau ar gyfer paratoi'r DTRh
Y cam nesaf fydd cyhoeddi'r Papur Materion Terfynol.
Byddai'r Ysgrifennydd yn dangos y system IMAECA i swyddogion pob un awdurdod cynllunio mwynau yng Ngogledd Cymru er mwyn i'r awdurdod benderfynu sut y byddant yn gweld eu rôl yn y DTRh ac i egluro'r broses dosrannu fyddai'n rhwymo pob awdurdod i roi allbwn cyson o ddefnydd agregau dros gyfnod y DTRh.

Bydd pob awdurdod cynllunio mwynau yn gyfrifol am ddarparu Datganiad Safle mewn perthynas â'u cyfraniad i ddarparu agregau gyda golwg ar y capasiti amgylcheddol am gyfnod 5 mlynedd y DTRh.

Byddai'r Datganiadau Sefyllfa ynghyd â'r adroddiad gan y diwydiant yn rhoi proffil manwl ar gyfer y Rhanbarth ac yn cynorthwyo datblygiad opsiynau ar gyfer y DTRh.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y broses ymgynghori ac roedd strategaeth yn cael ei datblygu i gynnwys safle we ac roedd ymchwiliad ar gyfer ariannu'r safle we ar y gweill.

8. UFA.

Rhoddwyd eglurhad byr o weinyddiaeth GARh ar gyfer Gogledd Cymru.

Daw'r contract 4 blynedd bresennol gyda'r awdurdod arweiniol, sef Gwynedd, i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2006 pan fydd Gwynedd yn ymddiswyddo o'i swyddogaeth fel awdurdod arweiniol.

Ymddiswyddodd y cyn Ysgrifennydd llawn amser y llynedd ac ni chafwyd neb cymwys i gymryd ei le.

Ar ôl ymddeol o'i swydd fel swyddog cynllunio mwynau a gwastraff Gwynedd ym mis Ebrill 2005, roedd JHG wedi gwirfoddoli i gymryd drosodd fel Ysgrifennydd ar sail rhan amser hyd ddiwedd y contract neu ar ôl apwyntio ysgrifennydd llawn amser pa run bynnag oedd gyntaf.

Datganodd y Cadeirydd werthfawrogiad yr aelodau o'r gwaith a ymgymerwyd gan JHG fel Ysgrifennydd yn ystod yr amser anodd hwn. Mynegwyd pryderon am ddiffyg olynydd fel yr awdurdod arweiniol yng Ngogledd Cymru yn enwedig gan fod hanes awdurdodau arweiniol yn mynd yn ôl 30 mlynedd yng Ngogledd Cymru [Clwyd, Sir y Fflint a Gwynedd]

Pe byddai'r gwaith yn cael eu cwblhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru byddai awdurdodau Gogledd Cymru yn colli eu dylanwad.

9. Y Cyfarfod Nesaf.

Cafodd aelodau'r dewis o gynnal cyfarfodydd er mwyn cael diweddariad a gwybodaeth reolaidd neu i gyfyngu cyfarfodydd i wneud penderfyniadau gwleidyddol. Y teimlad o amgylch y bwrdd oedd, gan dderbyn bod cyfyngiadau ar amser pobl, bod yr olaf yn fwy derbyniol.

Felly ni osodwyd unrhyw ddyddiad penodol ond rhagwelir y bydd yn rhaid galw cyfarfod ym mis Mawrth/ Mai 06. Cynigiodd yr Ysgrifennydd y byddai'n rhaid cael o leiaf 6 wythnos o rybudd. Roedd y lleoliad yn dderbyniol.